Cofnodion Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cilgant, Llandeilo am 7.30 pm ar nos Fawrth, 19 Ebrill 2005

Yn Bresennol: Maeres Ros Bellamy
Cyng Fran Murphy
Cyng Ieuan Gwyn
Cyng Roy Davies
Cyng Sir Ieuan Jones
Dirprwy Faer Colin Jenkins
Cyng Richard Wallace
Cyng Hugh Towns
Cyng Pam Steane Price
Clerc June Stait

Ymddiheuriadau: Cyng David Jones
Cyng Charlotte Leadbeater a adawodd y cyfarfod ar ôl yr eitem gyntaf

Daeth y Rhingyll Neil Jones i'r cyfarfod er mwyn cynghori'r Cynghorwyr ar broblemau phobl ifanc afreolus yn y dref sy'n gwagio biniau ar y strydoedd, distrywio blodau, gwneud sŵn gyda'u ceir ac yn achosi trafferthion cyffredinol yn y dref. Dywedodd y Rhingyll Jones wrth y Cynghorwyr bod yr heddlu wedi dal a dirwyo rhai pobl ifanc, eu bod wedi rhoi rhybudd swyddogol i eraill, a'u bod yn parhau i fonitro'r ardal. Rhoddwyd iddo gopïau o lythyron a dderbyniwyd wrth aelodau o'r gymuned oedd yn cwyno am y digwyddiadau hyn. Nodwyd bod Llandeilo yn dref heddychlon ac mai dim ond un lladrad sydd wedi bod ers mis Hydref, gydag ambell achos bach arall dros y misoedd diwethaf. Diolchodd y Maer i'r Rhingyll Jones am fynychu, ac fe wnaeth y Dirprwy Faer ei longyfarch ar ran y Cyngor ar ei briodas yn ddiweddar.

6457/Ebrill/05 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

1. Darllenwyd gofnodion Cyfarfod Llawn y Cyngor a gynhaliwyd ar ddydd Mawrth, 15 Mawrth 2005, ac fe gytunwyd eu bod yn gofnod cywir a'u harwyddo. Cynigwyd gan y Dirprwy Faer Colin Jenkins ac eiliwyd gan Cyng Pam Steane Price.

2. Darllenwyd gofnodion y Pwyllgor Cynllunio ac Achosion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2005, ac fe gytunwyd eu bod yn gofnod cywir a'u harwyddo. Cynigwyd gan y Dirprwy Faer Colin Jenkins ac eiliwyd gan Cyng Richard Wallace.

3. Darllenwyd gofnodion y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd ar 6 Ebrill 2005, a gwnaed un cywiriad teipio bychan. Cofnod 6450: £1485.67 oedd cyfanswm cywir anfoneb Cynllun Coed Dulais, nid £1488.67 fel nodwyd. Wedi cofnodi'r cywiriad hwn, fe'u derbyniwyd yn gofnod cywir o'r cyfarfod a'u harwyddo.

6458/Ebrill/05 Ffordd Osgoi

Yn codi o gofnod 6418, fe gynghorodd Cyng Ieuan Jones nad w'r llythyr wrth Andrew Davies, dyddiedig 31 Mawrth, yn rhoi gwybodaeth bellach. Mae'n ymddangos nad oes unrhyw ddatblygiadau wedi eu gwneud dros y chwe mis diwethaf.

6459/Ebrill/08 Pwyllgor Apêl Lleol

Mynychodd y Dirprwy Faer Colin Jenkins gyfarfod Pwyllgor Apêl ar 22 Mawrth yn Ysgol Gynradd Llandeilo. Cynhaliwyd y cyfarfod er mwyn ennill cefnogaeth ariannol ar gyfer Eisteddfod yr Urdd a gynhelir ym mis Mai 2007. Roedd y Cynghorwyr yn falch o waith y mudiad hyd yn hyn ac yn barod i ystyried rhoi arian naill ochr yn y gyllideb ar gyfer y digwyddiad.

6460/Ebrill/08 Ymweliad Safle i drafod Cais Cynllunio ar gyfer *Coaching Inn*

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

Yn yr ymweliad safle i drafod y *Coaching Inn* arfaethedig newydd yn *Station Approach*, Llandeilo, penderfynodd y Cynghorwyr gefnogi'r cais, ac ysgrifenwyd lythyr i'r Awdurdod Cynllunio i gadarnhau hyn.

6461/Ebrill/05 Dyddiadau Cyfarfod

Fe wnaeth y Cyng Ieuan Gwyn gynnig ffurfiol bod y geiriad "pedwerydd dydd Mercher" yn Rheol Sefydlog rhif 3 (llinell 1, tudalen 2) yn cael ei roi yn lle'r geiriad "trydydd dydd Mawrth". Hefyd, cynigodd bod y geiriad "Bydd diwrnod a dyddiad cyfarfod mis Rhagfyr yn cael ei benderfynu gan y Cyngor yng nghyfarfod mis Medi" yn dilyn yr atalnod llawn ar llinell 2. Trafodwyd hyn eisoes, a dosbarthwyd y manylion i'r Cynghorwyr. Eiliwyd gan Cyng Hugh Towns. O ystyried y nifer o wythnosau sydd wedi mynd i drafod a chytuno ar hyn, awgrymodd y Maer bod hyn yn cael ei weithredu ar gyfer y cyfarfod nesaf. Cytunodd y Cynghorwyr yn unfrydol.

6462/Ebrill/05 Bwrdd Negeseuon y Wefan

Cynigwyd y syniad o gau bwrdd negeseuon y wefan gan mai tua un neges a dderbynir arno bob mis, ar wahan i negesuon spam. Trafododd y Cynghorwyr y sefyllfa ond roedd yn anneglur os y byddai cost o dynnu'r gwasanaeth yn ôl a'i ailgyflwyno yn y dyfodol. Bydd yr eitem yma'n cael ei roi gerbron cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid, pan fydd y costau hyn ar gael. Bydd hysbys yn cael ei roi ar y bwrdd negeseuon yn y dref er mwyn atgoffa aelodau'r gymuned i ddefnyddio bwrdd negeseuon y wefan.

6463/Ebrill/05 Polisi Cyfleoedd Cyfartal

Trafodwyd y polisi cyfleoedd cyfartal a ddaosbarthwyd gan y Maer. Byddai'r polisi yn berthnasol i bob prosiect, cyflogaeth, ceisiadau nawdd a phob peth mae'r Cyngor yn ei wneud. Cytunodd y Cynghorwyr yn ffurfiol ac yn unfrydol iddo. Byddai un Cynghorydd yn cael ei benodi yn y CCB i fonitro cydymffurfiad y Cyngor i'r polisi. Cynigodd Cyng Hugh Towns, ac eiliodd Cyng Ieuan Gwyn bod y polisi yn cael ei weithredu.

6464/Ebrill/05 Prosiect Treftadaeth

Nododd Cyng Roy Davies bod cyfres o gyfarfodydd wedi cael eu cynnal dros y misoedd diwethaf, a bod adroddiad wedi cael ei ddosbarthu i'r Cynghorwyr. Bydd y Grŵp Gweithredol yn canolbwyntio ar y Llwybr Tref, gyda chyfres o baneli gwybodaeth, taflen wybodaeth a phlaciau er mwyn cynyddu'r ymwybyddiaeth leol. Roedd y Grŵp Gweithredol yn edrych i weld os oes ffynonellau nawdd ar gael. Byddai llwybr ehangach yn cael ei ystyried o gwmpas y dref, ond byddai angen mwy o waith ymgynghorol a gwella'r llwybr, felly'r ail gam fyddai hyn.
Diolchodd Cyng Ieuan Gwyn i'r Grŵp Gweithredol, ac yn arbennig i Cyng Roy Davies am eu gwaith a'u hymdrechion parhaus.

6465/Ebrill/05 Prosiect yr Ardd

Fe wnaeth Cyng Pam Steane a Cyng Fran Murphy roi diweddariad ar y gwaith parhaus yn yr ardd. Mae'r Grŵp Gweithredol a'r gwirfoddolwyr yn gweithio ar yr ardd bob dydd Sadwrn cyntaf o'r mis, a'r trydydd dydd Sadwrn. Nodwyd hefyd bod yr ardd wedi derbyn rhodd o garped gyda hessian oddi tano, sy'n arbed chwin rhag ailymddangos mewn mannau sydd wedi cael eu clirio.

6466/Ebrill/05 Plannu Coed

Mae'r anfoneb ar gyfer y gwaith plannu coed wedi cael ei dalu a'r gwaith wedi ei gwblhau. Y cam nesaf yw i hawlio'r nawdd cyn gynted â bod y siec wedi clirio.

6467/Ebrill/05 Goleuadau Nadolig

Bydd y Dirprwy Faer Colin Jenkins a'r Cyng Hugh Towns yn trefnu cyfarfod gyda Mr Griffiths o'r Cyngor Sir i drafod yr offer cysylltiol newydd sydd ei angen ar y strydoedd ar gyfer y goleuadau Nadolig. Bydd manylion clir yn cael ei nodi a thendrau yn cael eu gwahodd. Bydd adroddiad yn cael ei roi i'r Cyngor unwaith bydd y wybodaeth yn hysbys.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk

6468/Ebrill/05 Tân Gwyllt

Mae Cyng Colin Jenkins a Cyng Hugh Towns wedi ymchwilio i'r posibiliadau ac wedi argymell bod y Cyngor yn is-gontractio'r gwaith o drefnu a phrynu'r tân gwyllt i Geraint, Nice Price News eleni eto. Mae gan Geraint ddwy flynedd o brofiad ac mae mewn cyswllt â'r unig prif gyflenwr yn ne Cymru. Mae wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch, mae ganddo dempled ar gyfer hysbysebu ac argraffu rhaglen, felly credir mai parhau gyda'r trefniant hwn yw'r gwerth gorau.
Bydd cytundeb drafft a chyllideb yn cael ei baratoi fel amlinelliad o'r gwaith. Cytunodd y Cynghorwyr ar hyn yn unfrydol.

6469/Ebrill/05 Lês Neuadd y Sir

Mae Cyng David Jones a Cyng Ieuan Gwyn wedi cael cyfreithiwr i greu'r termau ar gyfer lês 10 mlynedd newydd gydag Archaeoleg Cambria. Trafododd y Cynghorwyr y posibilrwydd o fod angen newid unrhyw lês newydd yn y dyfodol os bydd y gwaith i newid y tu mewn i Neuadd y Sir yn dechrau. Derbyniwyd lythyr wrth Hugh Williams Son & Co yn nodi bod y gost o baratoi lês yn mynd i fod tua £330.

6470/Ebrill/05 Asesiad Risg Ariannol

Derbyniwyd dempled wrth yr Archwilwyr, ac o'i weld fe baratodd Cyng Hugh Towns asesiad risg ariannol ar gyfer Cyngor Tref Llandeilo. Nodwyd os oedd yr eitemau ar y rhestr yn risg Uchel, Canolig neu Isel, a bydd y manylion yn cael eu adolygu yn flynyddol. Trafododd y Cynghorwyr yr Asesiad ac fe gytunwyd yn ffurfiol i dderbyn yr adroddiad Asesiad Risg Ariannol. Cynigwyd gan Cyng Ieuan Gwyn, eiliwyd gan Cyng Richard Wallae a phawb yn gytun.

6471/Ebrill/05 Adolygiad Cyllideb

Roedd Cyng Hugh Towns wedi parataoi adolygiad o'r gyllideb ariannol, oedd yn dangos y byddai'r gorwario ar ddiwedd y flwyddyn yn dod i £481.

6472/Ebrill/05 57 o dai newydd arfaethedig yn Llys Pen Crug

Derbyniwyd gais cynllunio ar gyfer 57 tŷ newydd yn Llys Pen Crug. Bydd ymweliad safle i ddilyn, a caiff ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio am 6pm ar ddydd Llun, 25 Ebrill yn Neuadd y Sir.

Mewn cydymffurfiad â'r oblygiadau statudol yn y Ddedf Mynediad i Wybodaeth 1985, a Rheol Sefydlog 23, gofynnir i aelodau'r cyhoedd a'r wasg adael y cyfarfod er mwyn i faterion staffio gael eu trafod.

6473/Ebrill/05 Materion Staffio

Derbyniwyd lythyr ymddiswyddo wrth Glerc y Dref. Nododd y Maer werthfawrogiad y Cyngor i'r gwaith a wnaed i geisio rhoi trefn ar bethau ers iddi gymryd yr awenau. Cynhaliwyd gyfarfod gan y Cynghorwyr i drafod materion staffio, a chytunwyd bod angen tri aelod o staff rhan amser, sef Clerc, Swyddog Cyllid a Swyddog Technegol. Bydd y panel penodi yn cynnwys y Dirprwy Faer Colin Jenkins, Cyng Hugh Towns, Maeres Ros Bellamy a Cyng Ieuan Gwyn. Bydd cyfnod prawf o chwe mis ar gyfer y swyddi. Cynigwyd Cyng Hugh Towns fel y cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw faterion a fydd yn codi gyda'r staff newydd. Cynigwyd hyn gan Cyng Roy Davies ac eiliwyd gan Cyng Pam Steane Price gyda phawb yn gytun.
Roddir hysbyseb am y swyddi yn y papurau lleol a'r cylchgrawn Cymuned.

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk